



# Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

## Coleg Gwent

Tachwedd 2019

### Y canfyddiadau allweddol

#### Beirniadaethau QAA am Goleg Gwent

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Gwent.

- Gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.
- Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

#### Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **meysydd canlynol sydd angen eu datblygu** yng Ngholeg Gwent sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academaidd yn ddibynadwy ac/neu yn gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i Goleg Gwent:

- hysbysebu'n fwy eglur, mewn deunyddiau i ymgeiswyr, y cyfleoedd i fyfyrwyr gael achrediad i'w dysgu ardystiedig neu brofiadol blaenorol, a sicrhau bod aelodau o'r staff sy'n cymryd rhan yn y broses dderbyn yn ymwybodol o'r cyfleoedd hynny (y Cod Ansawdd)
- egluro'n well i'w staff, mewn strategaethau perthnasol ac arweiniad cysylltiedig, yr hyn a ddisgwylir gan y rheiny ohonynt sy'n cymryd rhan yn y gwaith o addysgu, dysgu ac asesu ar lefel addysg uwch (y Cod Ansawdd)
- gynnwys yn ffurfiol yn y broses fonitro flynyddol, ar lefelau'r ysgolion a'r Coleg, y broses o adrodd ar y datblygiad a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a bennwyd yn yr adroddiadau blaenorol (y Cod Ansawdd)
- sefydlu gweithdrefn ffurfiol sy'n sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata yn cael eu diweddarau mewn da bryd i adlewyrchu unrhyw newidiadau allanol wrth iddynt godi, y tu allan i'r broses ddiweddarau flynyddol (Diogelu'r Defnyddwyr).

#### Gwelliannau penodol

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw welliannau penodol.

## Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 26 a 27 Tachwedd 2019 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Mr Richard Alderman (adolygwr sy'n fyfyrwr)
- Dr Mark Atlay
- Mrs Alison Jones.

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i'r corff cyllido perthnasol am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

## Ynghylch Coleg Gwent

Mae Coleg Gwent yn darparu addysg uwch a phellach, ynghyd â hyfforddiant ac addysg alwedigaethol, ar draws hen sir Gwent yn Ne Cymru. Mae'n gweithredu o bum prif gampws yng Nghasnewydd, Pont-y-pŵl, Brynbuga, Crosskeys a Glynabwy. Gweledigaeth y Coleg yw sicrhau mai hwn yw'r 'coleg i'w ddewis', a'i genhadaeth yw 'gwella cyfleoedd bywyd drwy ragoriaeth addysgol i bawb'. Mae'n anelu at fod yn un o'r darparwyr AU mewn AB mwyaf yng Nghymru gan weithio drwy bartneriaethau â'i gyrrff dyfarnu a'i randdeiliaid eraill i gyflenwi darpariaeth gynaliadwy o safon uchel sy'n ateb anghenion cyflogwyr ac sy'n cefnogi cynnydd ei fyfyrwyr.

Mae'r Coleg yn cyflenwi ei ddarpariaeth addysg uwch ar ran pedwar corff dyfarnu: Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerwrangon. Mae'r Coleg hefyd yn darparu cymwysterau Cenedlaethol Uwch BTEC Pearson. Darperir rhaglenni mewn amrywiaeth eang o feysydd astudio, sy'n cynnwys busnes a rheoli, adeiladu, iechyd cefylau ac anifeiliaid, y diwydiannau creadigol ac iechyd a gofal y cyhoedd. Mae'r Coleg yn cynnig ystod o ddyfarniadau sy'n cynnwys graddau sylfaen, graddau baglor a rhaglenni atodol ar gyfer graddau baglor. Ar adeg yr adolygiad, roedd gan y Coleg 852 o fyfyrwr addysg uwch.

# Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

## *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)*

1 Mae'r Coleg yn gwneud defnydd priodol o'r FHEQ a FfCChC yn ei brosesau o osod safonau. Mae gan y cyrff dyfarnu'r cyfrifoldeb trosfwaol am safonau academaidd, ac mae rhestrau gwirio yn dangos cyfrifoldebau'r Coleg a chyfrifoldebau'r cyrff dyfarnu mewn perthynas â phrosesau allweddol ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae ystyried y FHEQ a FfCChC yn rhan annatod o'r broses o gynllunio cyrsiau sy'n cynnwys trafodaethau gyda staff y prifysgolion dyfarnu neu ddefnyddio'r ddogfennaeth cwrs Pearson berthnasol. Mae tystiolaeth o hyn i'w gweld yn nogfennaeth y cyrsiau a manylebau'r rhaglenni cysylltiedig a luniwyd drwy ddilyn y broses hon. Mae gan staff y Coleg ddealltwriaeth effeithiol o'r FHEQ a FfCChC a sut i'w defnyddio.

2 Mae'r Coleg yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol, gan gynnwys y Cod Ansawdd, arweiniad gan y cyrff proffesiynol perthnasol, staff y prifysgolion ac arholwyr allanol, i sicrhau bod y safonau wedi'u gosod ar y lefel briodol a'u bod yn gymaradwy â rhai'r darparwyr addysg uwch eraill. Mae'r broses ar gyfer cynllunio a chymeradwyo asesuadau yn dibynnu ar y corff dyfarnu perthnasol, ac mae'r staff yn deall y broses hon yn glir. Mae arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau'n cael eu gosod a'u monitro'n briodol, a bod y canlyniadau dysgu'n cael eu cyflawni. Y corff dyfarnu perthnasol sy'n gyfrifol am ddyfarnu credydau.

## **Y cod llywodraethu perthnasol: megis y Cod Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion neu'r Cod Llywodraethu Da i Golegau yn Lloegr gan Gymdeithas y Colegau**

3 Mae gan y Coleg drefnau llywodraethu effeithiol, sy'n ei alluogi i gadw goruchwyliaeth ar ei brosesau llywodraethu academaidd. Mae corff llywodraethu (Bwrdd) y Coleg, sy'n cynnwys llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr a llywodraethwyr sydd ag arbenigedd penodol ym maes addysg uwch, yn cymeradwyo'r Datganiad o Sicrwydd a'r Adroddiad Hunanasesu blynyddol i'r Cyngor Cyllido ac mae'n derbyn cyflwyniadau rheolaidd am y gweithgarwch addysg uwch yn y Coleg. Hefyd, mae'r Coleg wedi meincnodi ei weithgareddau yn erbyn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru, ac ni chanfuwyd unrhyw faterion oedd yn gofyn sylw. Mae Strategaeth Addysg Uwch ar wahân ganddynt i danategu'r ddarpariaeth addysg uwch.

4 Adolygodd y Coleg ei drefn llywodraethol yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19, gan sefydlu Is-bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd newydd i gefnogi ffocws cryfach ar ansawdd. Bellach, mae'r is-bwyllgorau ar gyfer y ddarpariaeth addysg uwch a llais a phrofiad y dysgwyr yn adrodd i'r Bwrdd drwy gyfrwng yr Is-bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd. Bydd y pwyllgor hwn yn ystyried Adroddiadau Hunanasesu dilynol a'r dogfennau cysylltiedig ac yn eu hargymell i'r Bwrdd i dderbyn cymeradwyaeth. Cadarnhaodd aelodau'r Bwrdd eu bod yn derbyn esboniad, lle bo raid, er mwyn deall materion sy'n ymwneud ag addysg uwch.

5 Oherwydd y newidiadau diweddar i'r strwythur llywodraethu, nid oedd hi'n bosibl i'r tîm adolygu werthuso effeithiolrwydd y newidiadau hyn. Fodd bynnag, roedd y cylchoedd gwaith a'r cofnodion drafft yn awgrymu y byddai'r strwythur newydd yn rhoi mwy o allu i'r Bwrdd graffu ar y ddarpariaeth addysg uwch. Mae Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd hefyd yn aelod o'r Bwrdd, gan ddarparu cyswllt mewn perthynas â llywodraethu academaidd. Mae'r Coleg wedi nodi ei fwriad i benodi trydydd llywodraethwr sy'n fyfyrwr yn benodol o blith y corff myfyrwyr addysg uwch.

6 Mae gan y Bwrdd Is-bwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am oruchwylio risg ar draws y Coleg. Mae gan y Coleg gofrestr risgiau sefydliadol i roi ystyriaeth i risgiau sy'n gallu effeithio ar y Coleg cyfan, megis diogelu myfyrwyr. Rheolir risgiau academaidd drwy'r fframwaith pwyllgorau addysg uwch. Mae Pwyllgor Addysg Uwch ar wahân yn monitro'r rhaglenni'n flynyddol, gan ystyried adroddiadau arholwyr allanol, adborth gan fyfyrwyr, a data am gofrestrriad a pherfformiad y myfyrwyr. Mae'r Coleg yn gweithredu Menter Gwella Canlyniadau gyda lefel uwch o fonitro ar gyfer nifer fechan o raglenni lle gwelwyd risgiau i'r ansawdd academaidd. Pennir unrhyw risgiau ar lefel y rhaglenni gan staff y rhaglenni ac mae Dangosfwrdd Addysg Uwch ar gael iddynt sy'n cynnwys gwybodaeth rheoli allweddol.

7 Mae'r Coleg yn ymwreiddio'r Safonau Iaith Gymraeg drwy gyfrwng ei Strategaeth Ddwyieithog, yn eu datblygu a'u monitro drwy gynlluniau gweithredu pwnc/swyddogaeth ac yn eu goruchwylio drwy Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Coleg.

### **Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)**

8 Mae'r Coleg yn cynnig darpariaeth addysg uwch drwy bedwar corff dyfarnu sydd â'r cyfrifoldeb am safonau academaidd yr holl gredydau a chymwysterau sy'n cael eu dyfarnu yn eu henwau hwy. Trwy fodloni gofynion y cytundebau partneriaeth, mae darpariaeth addysg uwch y Coleg yn gweithredu'n unol â'r fframweithiau academaidd rheoliadol a'r prosesau rheoli ansawdd sydd wedi'u pennu gan ei gyrff dyfarnu. Mae cyfrifoldebau'r Coleg am helpu i osod a/neu gynnal safonau academaidd y dyfarniadau'n amrywio yn dibynnu ar y cytundeb partneriaeth perthnasol.

9 Mae rôl swyddogion cyswllt, a chyfarfodydd/gweithgareddau partneriaeth gyda'r cyrff dyfarnu, yn helpu'r Coleg i ddeall ei gyfrifoldebau ynghylch safonau academaidd. Mae staff y cyrff dyfarnu'n ymweld â'r Coleg yn rheolaidd i gefnogi ystod o weithgareddau, ac mae staff y Coleg yn ymweld â champysau'r prifysgolion i gymryd rhan mewn sesiynau datblygiad staff. Yn ogystal, mae cynrychiolydd staff y Coleg yn eistedd ar bwyllgor partneriaeth Prifysgol De Cymru sy'n rhoi sicrwydd bod y Coleg yn cwrdd â'r safonau disgwyliedig drwy lynu at bolisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

10 Mae Polisi Derbyn y Coleg yn cyfeirio at ofynion mynediad safonol sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan y Coleg. Trwy lynu at y meini prawf mynediad safonol, mae'r Coleg yn sicrhau derbyniad i'r myfyrwyr hynny y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt gwblhau'r rhaglen. Cadarnhaodd y staff fod prosesau ar waith ar gyfer asesu ymgeiswyr sy'n gwneud eu cais yn hwyr, ymgeiswyr hŷn a'r rheiny sydd â chymwysterau ansafonol, gan eu cyfeirio at y corff dyfarnu perthnasol os oes angen.

11 Cymeradwyir asesiadau drwy ddefnyddio gweithdrefnau'r cyrff dyfarnu er mwyn sicrhau y profir y myfyrwyr i sicrhau eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gosod yr asesiadau ar gyfer darpariaeth a ddilysir a'u bod yn gallu cyfrannu at asesiadau a osodir ar gyfer darpariaeth ar etholfraint er mwyn sicrhau bod strwythur demograffig y Coleg yn cael ei adlewyrchu'n briodol. Mae cynlluniau marcio, prosesau ail farcio, cyfarfodydd safoni a phrosesau safoni allanol yn sicrhau cydraddoldeb ar draws gwahanol safleoedd lle darperir darpariaeth ar etholfraint. Cynhelir Byrddau Asesu Addysg Uwch y Coleg ddwywaith y flwyddyn i ddilysu penderfyniadau asesu/gwirio a chytuno ar gamau gweithredu ar gyfer achosion lle mae myfyrwyr wedi methu â chwrdd â'r meini prawf asesu gofynnol.

12 Cynhelir prosesau adolygu systematig parhaus ar lefelau'r modiwlau, y cyrsiau, yr ysgolion a'r Coleg, sy'n hysbysu'r Cynllun Datblygu Ansawdd Addysg Uwch (Cynllun DAAU). Mae'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i ysgogi datblygiad a gwelliant. Mae'r Cynllun DAAU yn rhan o Adroddiad Hunanasesu Addysg Uwch (Adroddiad HAU) blynyddol y Coleg sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Llywodraethwyr bod y Coleg yn cynnal safonau academaidd. Mae'r Adroddiad HAU yn cynnwys sylwadau hunanwerthuso am ddata'r myfyrwyr sy'n ymwneud â chofrestrriad,

cadwraeth, cyfraddau cwblhau a phasio, trylwyredd a chywirdeb y broses asesu, rheolaeth a chywirdeb y broses gofrestru, a chanlyniadau adolygiadau allanol.

13 Mae'r Coleg yn defnyddio data'n effeithiol yn ei brosesau o fonitro safonau academiaidd. Cadarnhaodd y staff eu bod yn derbyn data amser real y maent yn eu defnyddio'n rhagweithiol i bwrpasau monitro. Adroddir data am gadwraeth, cyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau'r myfyrwyr bob blwyddyn yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Addysg Uwch, sydd hefyd yn edrych ar agweddau ehangach sy'n effeithio ar brofiad y myfyrwyr, megis recriwtiad isel, canfyddiad gwael y dysgwr a chanlyniadau ailadroddus. Ar sail y llwyddiant yn ei ddarpariaeth addysg bellach, mae'r Coleg wedi gweithredu'r Fenter Gwella Canlyniadau yn ddiweddar i gefnogi rhaglenni addysg uwch sy'n tanberfformio.

14 Mae'r Coleg yn defnyddio arbenigedd allanol i sicrhau bod ei brosesau'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur. Mae'r broses o ddilysu rhaglenni'n cynnwys cyfraniad gan arbenigwyr allanol a, lle bo'n berthnasol, yn sicrhau bod y broses yn glynu at ofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio. Penodir arholwyr allanol gan y cyrff dyfarnu i gadarnhau bod y prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu'n briodol, a defnyddir eu hadborth i hysbysu'r Adroddiad HAU a'r Cynllun DAAU. Hefyd, mae'r Coleg yn cydweithio â chonsortium o golegau yng Nghymru i ddatblygu data meincodi am addysg uwch mewn addysg bellach a fydd yn fwy priodol i bwrpasau cymharu.

## **Y feirniadaeth**

15 Mae trefniadau sicrhau ansawdd y Coleg yn briodol o ran ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau tuag at ei gyrff dyfarnu a'i sefydliadau dyfarnu, ac i alinio â'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol wrth gynnal safonau academiaidd.

16 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

# Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr

## Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

17 Mae'r Coleg yn gyfrifol am recriwtio a derbyn myfyrwyr i raglenni Pearson a rhaglenni Prifysgol De Cymru. Mae myfyrwyr sydd eisiau gwneud cais am le ar raglenni Prifysgol Aberystwyth yn gwneud eu cais yn uniongyrchol i'r Brifysgol, tra bo'r rheiny sydd eisiau gwneud cais i Brifysgol Caerwrangon yn gwneud hynny drwy UCAS. Mae ymgeiswyr yn derbyn arweiniad manwl ac mae'r gweithdrefnau wedi'u disgrifio ym Mholisi Derbyn y Coleg gyfer myfyrwyr addysg uwch a'r siartiau llif cysylltiedig, ac mae'r staff yn deall y gweithdrefnau hynny'n glir. Mae adborth o arolygon yn dangos bod y broses ymgeisio a chofrestru'n dilyn trefnau effeithiol sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

18 Mae'r Coleg yn defnyddio polisïau a gweithdrefnau'r cyrff dyfarnu perthnasol ar gyfer achredu dysgu blaenorol. Mae Siarter y Myfyrwyr yn ymrwmo'r Coleg i sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau am ei brosesau o gydnabod cyflawniadau blaenorol ar gael i'w fyfyrwyr. Fodd bynnag, ni sonnir am y posibilrwydd o gael achrediad i ddysgu ardystiedig neu ddysgu profiadol yn y Polisi Derbyn nac yn y canllawiau perthnasol i'r staff. Mewn cyfarfodydd, clywodd y tîm am fyfyrwyr yn cael eu derbyn gyda safle uwch am ddysgu ardystiedig blaenorol drwy ddefnyddio gweithdrefnau priodol, er nad oedd y staff mor glir ynghylch y posibilrwydd y gallai ymgeiswyr ddefnyddio dysgu profiadol blaenorol. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n fuddiol i'r Coleg hysbysebu'n fwy eglur, mewn deunyddiau i ymgeiswyr, y cyfleoedd i fyfyrwyr gael achrediad i'w dysgu ardystiedig neu brofiadol blaenorol, a sicrhau bod aelodau o'r staff sy'n cymryd rhan yn y broses dderbyn yn ymwybodol o'r cyfleoedd hynny. Mae'r tîm yn ystyried bod hwn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

19 Mae gan y Coleg brosesau effeithiol ar gyfer cynllunio a datblygu cyrsiau newydd. Yn dilyn trafodaethau anffurfiol cychwynnol bydd ystyriaeth ffurfiol gan y Grŵp Llywio Addysg Uwch ac yna'r uwch dîm rheoli. Datblygir cyrsiau gyda chymorth y corff dyfarnu perthnasol, ac mae'r broses yn cynnwys rhoi ystyriaeth i ofynion cyrff proffesiynol, meincnodau pwnc a phwyntiau cyfeirio allanol eraill fel y bo'n berthnasol.

20 Mae'r myfyrwyr yn derbyn sesiynau cynefino effeithiol a llawlyfrau'r cyrsiau ac maent yn ystyried y rhain yn gywir ac yn ddefnyddiol. Mae'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei ehangu gyda deunyddiau a gweithgareddau sydd ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu ac yn cael ei gefnogi ymhellach gan sesiynau tiwtora personol strwythuredig. Siaradodd y myfyrwyr mewn ffordd gadarnhaol am ansawdd eu haddysgu a'r gefnogaeth a gawsent gan eu tiwtoriaid, ac mae canlyniadau arolygon mewnol a chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn cadarnhau hyn.

21 Gosodir a chymeradwyir asesiadau o dan drefniadau'r corff dyfarnu perthnasol a rhoddir gwybodaeth i'r myfyrwyr amdanynt mewn llawlyfrau ac ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r myfyrwyr yn derbyn arweiniad am arferion academaidd effeithiol, ac maent yn cyflwyno eu haseiniadau drwy ddefnyddio meddalwedd cymharu testun, pan fo'n briodol. Mae'r staff yn deall eu rolau yn y broses asesu, ac mae'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y gwaith o osod a marcio asesiadau'n briodol.

22 Mae Siarter Myfyrwyr y Coleg yn nodi y dylai'r myfyrwyr dderbyn adborth manwl o fewn 10 diwrnod gwaith, er mai'r trefniadau ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yw 20 diwrnod gwaith i ganiatáu amser i safoni. Cyfathrebir hyn yn glir i'r myfyrwyr yn llawlyfrau'r cyrsiau. Mae gan y myfyrwyr ddealltwriaeth glir am y tasgau a osodir sy'n mynd yn gynyddol heriol gan nodi eu bod yn derbyn adborth datblygiadol mewn da bryd.

23 Mewn trafodaethau gydag arweinwyr rhaglen, tiwtoriaid a staff cymorth dysgu, clywodd y tîm am amrywiaeth o ffyrdd o ddarparu, cefnogi ac asesu'r dysgu a'r addysgu sy'n briodol

i bob maes astudio ac i fyfyrwyr addysg uwch. Cadarnhawyd hyn gan arholwyr allanol a gweithdrefnau monitro mewnol y Coleg. Daeth y tîm i'r casgliad y dylai'r Coleg, er mwyn cyflawni ei amcanion strategol a helpu gyda lledaenu arferion priodol ym maes addysg uwch, egluro'n well beth yw ei ddisgwyliadau mewn perthynas â'r gwaith o addysgu, dysgu ac asesu ar lefel addysg uwch, gan fanteisio ar ei arbenigedd mewnol. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n fuddiol i'r Coleg egluro'n well i'w staff, mewn strategaethau perthnasol ac arweiniad cysylltiedig, yr hyn a ddisgwylir gan y rheiny ohonynt sy'n cymryd rhan yn y gwaith o addysgu, dysgu ac asesu ar lefel addysg uwch. Mae'r tîm yn ystyried bod hwn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

24 Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi adolygu a diwygio ei weithdrefnau ar gyfer monitro'r dysgu'n barhaus ac yn flynyddol, gan roi ystyriaeth i farn ei staff, ei fyfyrwyr a'i arholwyr allanol. Mae adroddiadau'r ysgolion yn defnyddio prosesau monitro ar lefel y modiwlau a'r cyrsiau ac yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Addysg Uwch. Mae hyn yn hysbysu'r Adroddiad HAU a'i Gynllun DAAU cysylltiedig sy'n derbyn ystyriaeth gan yr Is-bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd y Bwrdd Llywodraethwyr cyn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

25 Mae'r prosesau ar gyfer monitro'n barhaus ac yn flynyddol yn eglur ac yn effeithiol, ac mae'r staff yn deall y rhain yn dda. Fodd bynnag, er bod cynlluniau gweithredu'r ysgolion a'r Coleg yn cael eu monitro'n agos yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw broses ffurfiol i adrodd ar y camau gweithredu hynny sydd heb gael eu cwblhau neu eu dwyn ymlaen i mewn i'r cynllun gweithredu newydd. Mae hyn yn golygu y gallai fod yn anodd i'r Pwyllgor Addysg Uwch a'r Llywodraethwyr adnabod problemau parhaus neu gydnabod y camau gweithredu sydd wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r tîm o'r farn y byddai'n fuddiol i'r Coleg gynnwys yn ffurfiol yn y broses fonitro flynyddol, ar lefelau'r ysgolion a'r Coleg, y broses o adrodd ar y datblygiad a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a bennwyd yn adroddiadau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r tîm yn ystyried bod hwn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

26 Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi penodi tîm o Swyddogion Trosglwyddiad i AU, gydag un swyddog ar bob campws, i gefnogi myfyrwyr sy'n trosglwyddo o addysg bellach i astudiaethau addysg uwch ac i gefnogi dysgwyr unwaith y maent wedi cofrestru ar eu cwrs addysg uwch. Mae'r cyfleusterau, yr adnoddau dysgu a'r gwasanaethau cymorth yn cael eu monitro drwy fecanweithiau adborth y myfyrwyr ac adroddir arnynt yn ystod prosesau monitro blynyddol ar lefelau'r ysgolion a'r Coleg. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn gallu cael gafael ar gyfleusterau ac adnoddau priodol drwy gyfrwng y Coleg a chafodd y rhain eu cynyddu pan ychwanegwyd y cyfleusterau a'r adnoddau a ddarperir gan y cyrff dyfarnu, naill ai ar-lein neu drwy fenthyciadau, neu drwy fynediad mwy hwylus at adnoddau arbenigol. Lle canfuwyd anghenion ychwanegol, megis addasu oriau agor y llyfrgell ar gyfer astudio gyda'r nos, mae'r Coleg wedi ymateb mewn ffordd briodol ac mewn da bryd.

27 Mae dull y Coleg o ymdrin ag adborth gan fyfyrwyr wedi'i ddisgrifio yn y Strategaeth Cynnwys Dysgwyr. Mae'r Coleg yn casglu adborth gan ei fyfyrwyr gan ddefnyddio ystod o fecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol sy'n cynnwys arolygon, grwpiau ffocws a fforymau dysgwyr, Wythnos Profiad Dysgwyr Addysg Uwch a chyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y dysgwyr. Mae barn y myfyrwyr yn hysbysu'r broses fonitro flynyddol ac yn bwydo i mewn i Adroddiad HAU a Chynllun DAAU cysylltiedig y Coleg. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod y mecanweithiau hyn yn effeithiol a siaradodd yn gadarnhaol am yr amrediad o ffyrdd y gallent ddweud eu dweud a'r camau gweithredu a gymerir gan y Coleg mewn ymateb i'w hadborth.

28 O ystyried eu natur alwedigaethol, mae nifer fawr o gyrsgiau addysg uwch y Coleg yn cynnwys lleoliadau gwaith, ac mae'r trefniadau ar gyfer y rhain yn effeithiol. Esbonnir y disgwyliadau mewn perthynas â dysgu yn y gweithle yn glir i'r staff a'r myfyrwyr mewn llawlyfrau priodol. Lle bo'n angenrheidiol, mae'r Coleg yn rhoi cymorth ychwanegol i'w fyfyrwyr. Cadarnhaodd y myfyrwyr oedd wedi bod ar leoliadau gwaith eu bod wedi cael eu paratoi'n addas ac wedi



derbyn cefnogaeth briodol. Cadarnhaodd un cyflogwr a siaradodd â'r tîm ei fod wedi derbyn esboniad priodol o'i gyfrifoldebau.

29 Mae gan y Coleg ystod o fecanweithiau effeithiol i gefnogi ei fyfyrwyr i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol. Pennir anghenion academaidd y myfyrwyr drwy'r arferion addysgu ac asesu, a chânt eu cyfeirio at y cymorth priodol lle bo'n angenrheidiol. Ystyrir cynnydd y myfyrwyr sy'n symud ymlaen i astudiaeth bellach yn rhan o'r broses fonitro flynyddol. Mae'n anoddach cadw cysylltiad â graddedigion sydd wedi symud ymlaen i swydd, a soniodd aelodau uwch o'r staff eu bod yn edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o gasglu gwybodaeth. Yng Nghyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr pennwyd cyflogadwyedd yn faes sydd angen ei wella, ond roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw o'r farn eu bod wedi derbyn cymorth priodol.

30 Mae'r Coleg yn cadw llygad ar ei arferion craidd er mwyn gwella profiad addysgol ei fyfyrwyr. Mae ei flaenoriaethau strategol a'i brosesau monitro blynyddol yn brif ffactorau sy'n gyrru newid. Cafodd y newidiadau diweddar i strwythurau'r pwyllgorau a swyddi newydd sy'n canolbwyntio ar gynnydd a chymorth eu cynllunio i roi mwy o ffocws ar fyfyrwyr addysg uwch. Cafodd hyn ei gefnogi ymhellach gyda'r amgylcheddau dysgu newydd sydd ar nifer o'r campysau a buddsoddiad pellach yn rhith-amgylchedd dysgu'r Coleg.

31 Mae'r Coleg yn defnyddio arbenigedd allanol i reoli ansawdd ac i gefnogi'r profiad dysgu. Yn ogystal â defnyddio arholwyr allanol, adborth gan gyflogwyr a'i gysylltiadau gyda'r cyrff proffesiynol perthnasol, mae'r Coleg yn defnyddio ei gysylltiadau gyda phrifysgolion dyfarnu i wella ac ehangu ei brosesau, er enghraifft, ar gyfer cynllunio cyrsiau, cefnogi ei staff i gyflawni statws Cymrawd drwy'r rhaglen LEEP ym Mhrifysgol De Cymru, ac addasu prosesau cymorth myfyrwyr Prifysgol Caerwrangon.

32 Cynrychiolir y myfyrwyr addysg uwch ar Grŵp Llywio Profiad y Dysgwyr ac ar y Fforwm Dysgu ac Addysgu Addysg Uwch, sy'n rhoi adroddiadau i Is-bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd y Bwrdd. Mae cynrychiolwyr y dysgwyr yn mynd i Fforymau Dysgwyr Addysg Uwch, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, a Fforymau Dysgwyr ar y Campws a fyny chir gan y Pennaeth. Cadarnhaodd cynrychiolwyr y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw fod mecanweithiau priodol ar gael iddynt, yn unigol ac ar y cyd, i gymryd rhan ym mhrosesau'r Coleg a'u gwella.

## Y cod llywodraethu perthnasol

33 Mae gan y Coleg drefniadau effeithiol i annog ei fyfyrwyr i gymryd rhan mewn prosesau llywodraethu academaidd. Mae'r Bwrdd a'i Is-bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn cynnwys llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr, ac mae'r rheiny'n derbyn gwybodaeth a sesiwn gynefino gan y Coleg i sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae gan y Coleg Strategaeth Cynnwys Dysgwyr ynghyd ag amrywiaeth mawr o fecanweithiau, er enghraifft, Fforymau Dysgwyr Addysg Uwch a Fforymau'r Pennaeth ar y campysau, sy'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr roi adborth i'r Coleg ac sy'n adrodd i'r Is-bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth gan y Coleg ac Undeb y Myfyrwyr i ddeall eu cyfrifoldebau drwy hyfforddiant a disgrifiadau rôl. Pob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad llais y dysgwyr sy'n crynhoi cyfranogaeth a gweithgarwch cynrychiolwyr y myfyrwyr. Bydd yr adborth gan fyfyrwyr a dderbynnir drwy'r arolygon cwrs a rhaglen yn bwydo i mewn i'r prosesau monitro blynyddol, gan gynnwys yr Adroddiad HAU a'r Cynllun DAAU.

34 Mae'r Coleg yn darparu cyfleoedd gyda thâl i'w fyfyrwyr i weithredu fel Llysgenhadon Myfyrwyr gan fynd i gyfarfodydd penodol a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd megis teithiau cerdded y dysgwyr yn rhan o'r Wythnos Profiad Dysgwr flynyddol.

35 Mae gan y Coleg Weithdrefn a Pholisi Cwyno'r Myfyrwyr Addysg Uwch sydd â Chanllaw cysylltiedig. Bydd yr uwch dîm rheoli'n derbyn adroddiad tymhorol ac mae'r Is-bwyllgor Cwricwlwm



ac Ansawdd yn derbyn Adroddiad Cwynion blynyddol sy'n crynhoi'r adborth a dderbynnir, yn pennu themâu ac yn adrodd am foddhad y myfyrwyr gyda'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion. Derbyniwyd nifer fechan iawn o gwynion mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg uwch.

36 Mae gan y Coleg Bolisi Diogelu i ddiogelu a hybu lles pob un o'i ddysgwyr. Mae'r Coleg wedi nodi ei fwriad i weithredu system diwtora ffurfiol i'w fyfyrwyr ac i sicrhau bod hon yn gyson ymhob un o gampysau'r Coleg. Dywedodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus ynglŷn â chael gafael ar gefnogaeth a rhoi gwybod am broblemau drwy'r cyfnodau cymorth sydd wedi'u trefnu iddynt gyda staff y rhaglen.

### **Y polisiau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i sicrhau bod y dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr yn cael eu cyflawni (cyfarwyddyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd)**

37 Mae'r Coleg yn gyfrifol am farchnata ei raglenni addysg uwch, ac yn cefnogi hynny gyda llyfryn marchnata a gynhyrchir ar y cyd gyda Phrifysgol De Cymru. Mae Canllaw Addysg Uwch y Coleg ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan. Mae'r tudalennau gwe ar gyfer addysg uwch yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i ddarpar fyfyrwyr, sy'n cynnwys y broses ymgeisio, y ffioedd, gwybodaeth ariannol, a'r cymorth dysgu sydd ar gael, ynghyd â Siarter y Myfyrwyr, Telerau ac Amodau, Cwyno ac Apelio, a pholisiau cysylltiedig.

38 Cyhoeddir taflenni gwybodaeth cwrs ar wefan y Coleg a chânt eu diweddarau'n flynyddol gan arweinyddwyr y cyrsiau a'r Penaethiaid Ysgol cyn cael eu llofnodi gan y Pennaeth Addysg Uwch. Mae'r taflenni'n cynnwys gofynion ychwanegol i dderbyn ystyriaeth gan ddarpar fyfyrwyr cyn gwneud cais, gan gynnwys costau ychwanegol. Canfu'r tîm adolygu esiampl lle nad oedd unrhyw gyfeiriad at gost ychwanegol a gyflwynwyd yn ddiweddar. Roedd hyn yn ymwneud â'r rhaglen Gradd Sylfaen mewn Nyrsio Milfeddygol lle mae'r corff rheoleiddio yn awr yn gofyn am wiriad gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer y myfyrwyr o fis Medi 2020 ymlaen, a chadarnhaodd y Coleg y byddai hyn yn peri cost ychwanegol i'r myfyrwyr. Yn ogystal, roedd y daflen yn cynnwys costau eraill yn ymwneud â 2018. Mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: dylai'r Coleg sefydlu gweithdrefn ffurfiol sy'n sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata yn cael eu diweddarau mewn da bryd i adlewyrchu unrhyw newidiadau allanol wrth iddynt godi, y tu allan i'r broses ddiweddarau flynyddol.

39 Mae Polisi Derbyn y Coleg ar gyfer myfyrwyr addysg uwch, a gymeradwywyd gan Dîm Rheoli'r Coleg, yn egluro ei ddulliau o dderbyn myfyrwyr er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu gweithredu mewn ffordd gyson a theg. Mae cyfrifoldeb y Coleg am dderbyn myfyrwyr (gan gynnwys gosod y meini prawf derbyn) yn amrywio rhwng y cyrff dyfarnu ac wedi'i ddiffinio'n eglur mewn siart llif manwl i bob un o'i gyrff dyfarnu – siart sy'n cael ei gadw a'i gynnal gan y Swyddfa Derbyn. Mae gweithdrefn y Coleg ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â phenderfyniadau derbyn i'w gael yn ei Weithdrefn a Pholisi Cwyno ar gyfer Myfyrwyr Addysg Uwch.

40 Mae aelodau o'r staff sy'n cymryd rhan yn y broses dderbyn yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cadw'r wybodaeth yn gywir ac yn gyfoes er mwyn cefnogi darpar fyfyrwyr. Mae gwybodaeth am y prosesau derbyn ar gael ar wefan y Coleg ac wedi'i hadlewyrchu yn nogfen 'Telerau ac Amodau Contract y Myfyriwr Addysg Uwch' y Coleg

41 Mae canllawiau manwl ar gael i fyfyrwyr, ynghyd â siart llif, i gefnogi dealltwriaeth glir ac eglur o Weithdrefn a Pholisi Cwyno Myfyrwyr y Coleg. Mae'r Coleg yn tanysgrifio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol sy'n adolygu Polisi Cwyno'r Coleg yn flynyddol.

## Y trefniadau diogelu myfyrwyr

42 Mae gan y Coleg ddogfen 'Telerau ac Amodau' sy'n rhan o Gontract y Myfyriwr, a ddarperir yn rhan o'r llythyr cynnig ac a ddaw yn ddilys unwaith y bydd myfyriwr yn derbyn y cynnig. Mae'r Telerau'n crynhoi gweithdrefnau'r Coleg ar gyfer cau cyrsiau a newid rhaglenni astudio, gan gynnwys helpu myfyrwyr i drosglwyddo i raglenni astudio eraill os bydd angen.

43 Mae'r Coleg wedi ymateb yn weithredol i adborth gan fyfyrwyr i wneud newidiadau i gyrsiau mewn perthynas â chynnwys a threfn asesu'r rhaglenni; cafodd y newidiadau hyn eu cynnig yn ystod y broses o ail-ddilysu'r rhaglenni ac mewn ymgynghoriad â'r myfyrwyr. Cadarnhaodd y myfyrwyr fod y Coleg yn gweithredu mewn ffordd briodol ac mewn da bryd.

44 Cadarnhaodd y Coleg nad yw wedi cau unrhyw raglenni astudio addysg uwch hyd yn hyn ac, o ganlyniad, nid oes ganddo bolisi ar wahân ar gyfer cau cyrsiau. Yng nghyd-destun maint bychan carfannau ac effaith hynny ar ymarferoldeb rhedeg rhaglenni, mae'r Coleg yn monitro'r ceisiadau am le ar gyrsiau addysg uwch yn fanwl ac yn gwneud penderfyniadau am ddarpariaeth cyrsiau unigol bob mis Ebrill/Mai. Os gwneir penderfyniad i beidio rhedeg rhaglen, bydd y myfyrwyr yn cael eu cefnogi i astudio rhaglen arall ac/neu astudio ar gampws arall, neu i oedi eu hastudiaethau pan fydd cwrs yn cael ei ohirio yn y flwyddyn academaidd sy'n dod.

45 Mae gan y Coleg Weithdrefn a Pholisi Cwyno Myfyrwyr Addysg Uwch gyda Chanllaw cysylltiedig sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am gamau'r broses o ymdrin â chwynion a'u datrys, ac am yr hawl sydd gan y myfyrwyr i gyfeirio'r mater at y corff dyfarnu perthnasol neu Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar ôl i'r gweithdrefnau mewnol gael eu cwblhau. Dywedodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus ynglŷn â chael gafael ar yr wybodaeth hon yn y llawlyfrau myfyrwyr, os bydd angen.

46 Mae cwynion yn cael eu graddio yn ôl eu difrifoldeb a dyrennir swyddog ymchwilio annibynnol i ymdrin â nhw yn unol â hynny. Mae'r Coleg wedi derbyn nifer fechan iawn o gwynion sy'n ymwneud â'i ddarpariaeth addysg uwch. Darparodd y Coleg esiampl o gŵyn gan grŵp oedd wedi cael ei chyfeirio gan un o'r achwynwyr at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol; ni pharhawyd â'r gŵyn ond pennwyd argymhelliad i egluro'r dull cyfeirio mewn perthynas â hawliau myfyrwyr i symud cwynion i lefel uwch ar ôl i'r gweithdrefnau mewnol gael eu cwblhau. Mae'r Coleg wedi gweithio gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol i adolygu ei ddogfennau yn unol â'r argymhelliad.

## Y feirniadaeth

47 Mae pedwar maes sydd angen eu datblygu yn y maes beirniadaeth hwn sy'n ymwneud â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU a diogelu'r defnyddwyr. Mae eu ffocws ar sicrhau bod y Coleg yn cymryd camau pellach i hysbysebu'r cyfleoedd i fyfyrwyr gael achrediad i'w dysgu blaenorol; i egluro'n well yr hyn a ddisgwylir gan aelodau o'i staff sy'n cymryd rhan yn y gwaith o addysgu, dysgu ac asesu ar lefel addysg uwch; i ffurfioli'r broses o adrodd ar y datblygiad a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a bennwyd yn adroddiadau monitro blynyddol y flwyddyn flaenorol; ac i ddiweddarau ei ddeunyddiau marchnata i gymryd i ystyriaeth newidiadau allanol wrth iddynt godi. Mae'r meysydd sydd angen eu datblygu'n ymdrin â phroblemau neu gangymeriadau bychain, neu'n cynnwys diweddarau dulliau nad ydynt yn gofyn unrhyw newidiadau gweithredol mawr.

48 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

## Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

49 Mae'r pum awdurdod lleol yn nalgylch y Coleg ymysg y rheiny sydd â'r nifer isaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r data am gofrestrriad ar gyfer 2019-20 yn dangos bod 262 o'r myfyrwyr yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg a/neu wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, a dim ond 0.4% o'r myfyrwyr ddywedodd mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu. Roedd 6.8% o'r staff yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl neu i safon uchel.

50 Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi cymeradwyo ei Strategaeth Ddwylieithog ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau fel y maent wedi'u nodi yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae gan bob cyfadran ei chynllun gweithredu ei hun, ac mae cynllun arall i'w gael ar gyfer adrannau swyddogaethol. Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Coleg sy'n monitro gweithrediad y strategaeth ac mae'n adrodd am hynny i'r uwch dîm rheoli. Mae'r Llywodraethwyr yn clywed y diweddaraf am weithrediad y strategaeth gan y Rheolwr Iaith Gymraeg ac mae'r gofrestr risgiau sefydliadol yn cynnwys cydymffurfiad â'r gofynion hyn.

51 Mae gan y Coleg amrywiaeth o strwythurau, gweithgareddau ac adnoddau i gefnogi'r iaith Gymraeg, gan gynnwys Canolfan yr Iaith Gymraeg, Clybiau Cymraeg, a systemau cyfeillio Cymraeg. Anogir y staff i ddysgu Cymraeg yn rhad ac am ddim, ac mae sesiwn gynefino hefyd am y disgwyliadau sydd ar y staff i gefnogi a defnyddio'r iaith Gymraeg.

52 Rhoddir gwybod i ddarpar fyfyrwyr am y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn ystod diwrnodau agored, ffeiriau'r glas ac mewn llythyrau a deunyddiau marchnata sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae ymgeiswyr yn derbyn llythyrau cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gall y myfyrwyr fanteisio ar addysg yn yr iaith Gymraeg, tiwtor iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg i geisio cyngor a chefnogaeth. Ar rai cyrsiau, mae'r modiwlau dewisol ar gael yn gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg. Hysbysir y myfyrwyr ym mrieff eu haseiniadau bod ganddynt yr hawl i gyflwyno aseiniadau ysgrifenedig yn y Gymraeg, a chânt eu hysbysu mewn llawlyfrau ac yn ystod eu cyfnod cynefino bod ganddynt yr hawl i gael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg. Lle bo'r angen, bydd aseiniadau a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu cyfieithu i dderbyn asesiad ac i gael eu craffu gan yr arholwr allanol

53 Mae'r Coleg yn casglu adborth am ei ddarpariaeth iaith Cymraeg drwy ei fecanweithiau safonol, gan gynnwys Teithiau Cerdded y Dysgwyr. Aeth y tîm ati i drafod dull y Coleg gyda myfyrwyr, gan gynnwys rhai sy'n siarad Cymraeg. Cadarnhaodd y rhain eu bod yn ymwybodol o'u hawliau a bod dulliau ffurfiol ac anffurfiol priodol ar gael i gefnogi eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y tîm o'r farn bod y Coleg yn darparu cyfleoedd a hyrwyddir yn frwd i staff, myfyrwyr a darpar fyfyrwyr yn unol â gofynion y Safonau Iaith Gymraeg.

**QAA2509 – R10879 – Chwefror 20**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020  
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050  
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)